

2015 Rhif (Cy.)

## TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd  
yr A5 (Bethesda, Gwynedd)  
(Gwahardd Aros a Chyfyngu ar  
Aros) 2013 (Amrywio) 2015

*Gwnaed*                    30 Tachwedd 2015  
*Yn dod i rym*            01 Rhagfyr 2015

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A5) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1) (“Deddf 1984”) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 01 Rhagfyr 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013 (Amrywio) 2015.

### Amrywio

**2.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013 drwy hyn wedi ei amrywio a bydd yn effeithiol fel a ganlyn:-

(i) Ar ôl erthygl 5, mewnosoder—

“5A. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(3), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4”.

(ii) Ar ôl erthygl 6(2), mewnosoder—:

2015 No. (W.)

## ROAD TRAFFIC, WALES

The A5 Trunk Road (Bethesda,  
Gwynedd) (Prohibition and  
Restriction of Waiting) Order 2013  
(Variation) Order 2015

*Made*                    30 November 2015  
*Coming into force*    01 December 2015

The Welsh Ministers, as traffic authority for the London to Holyhead Trunk Road (A5) (“the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (“the 1984 Act”), and of all other enabling powers, and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the 1984 Act, hereby make the following Order:-

### Title, Interpretation and Commencement

**1.** This Order comes into force on 01 December 2015 and its title is The A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2013 (Variation) Order 2015.

### Variation

**2.** The A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2013 is hereby varied and shall have affect as follows:-

(i) After article 5, insert—

“5A. Except as provided in article 6(3), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the length of the trunk road specified in Schedule 4”.

(ii) After article 6(2), insert—:

“(3) Ni fydd dim yn erthygl 5A yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd y cyfeirir ati yn yr erthygl honno cyhyd ag y bo'n angenrheidiol mewn cysylltiad â'r gweithrediadau a'r dyletswyddau a bennir yn erthyglau 6(1)(c), 6(1)(d), 6(1)(f) a 6(1)(g).”

(iii) Yn lle pennawd Atodlen 1 rhodder, “Gwahardd aros ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(1)”.

(iv) Yn Atodlen 3, paragraff 3, llinell 5, yn lle “20 o fetrau” rhodder “26 o fetrau”.

(v) Ar ôl Atodlen 3, mewnosoder—

#### “ATODLEN 4

##### **Gwahardd aros ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(3)** **(Y Tu Allan i Orsaf Heddlu Bethesda)**

1. Y darn hwnnw o ochr deheuol y gefnffordd a elwir Stryd Fawr Bethesda sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwyt ei chyffordd â Stryd Glanafon hyd at bwynt 26 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno y tu allan i'r eiddo a elwir Gorsaf Heddlu Bethesda.”

“(3) Nothing in article 5A shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the length of the trunk road referred to in that article for so long as may be necessary in connection with the operations and duties specified in articles 6(1)(c), 6(1)(d), 6(1)(f) and 6(1)(g).”

(iii) For the Schedule 1 heading substitute, “Prohibition of waiting except as provided in article 6(1)”.

(iv) In Schedule 3, paragraph 3, line 5, substitute “20 metres” for “26 metres”.

(v) After Schedule 3, insert—

#### “SCHEDEULE 4

##### **Prohibition of waiting except as provided in article 6(3)** **(Outside Bethesda Police Station)**

1. That length of the southern side of the trunk road known as Bethesda High Street which extends from a point 20 metres north west of the centre point of its junction with Glanafon Street to a point 26 metres northwest of the said junction outside the property known as Bethesda Police Station.”

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

Tachwedd 2015

Signed under authority of the Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

November 2015

*Richard Morgan*  
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

*Richard Morgan*  
Head of Asset Management and Standards  
Welsh Government

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22). By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales

**GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD  
YR A5 (BETHESDA, GWYNEDD) (GWAHARDD  
AROS A CHYFYNGU AR AROS) 2013  
(AMRYWIO) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 01 Rhagfyr 2015. Bydd yn amrywio 'Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013' sy'n gwahardd aros ac yn cyfyngu ar aros, yn ddarostyngedig i eithriadau rhagnodedig, ar ochrau darnau penodedig o Gefnffordd yr A5 o Lundain i Gaerybi a elwir Ffordd Bangor, y Stryd Fawr, Rhes Ogwen, Rhes Douglas a Phont y Pant-isaf (y cyfeiriant ynt wedi hyn fel "y gefnffordd") ym Methesda yn Sir Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn Amrywio fydd gwahardd aros, yn ddarostyngedig i eithriadau rhagnodedig, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion y Gwasanaethau Brys, ar y darn 6 metr o ochr ddeheuol y gefnffordd a elwir y Stryd Fawr (y tu allan i Orsaf Heddlu Bethesda) sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Stryd Glanafon hyd at bwynt 26 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno. Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn presennol yn gosod cyfyngiad aros o 90 o funudau, a dim dychwelyd o fewn 2 awr, rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ar y darn o'r gefnffordd a grybwyllir uchod.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 30 Tachwedd 2015, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn Amrywio a'r plan diwygiedig, ynghyd â chopi o'r Gorchymyn sydd i'w amrywio a'r plan cysylltiedig, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfa Bost Bethesda, Bethesda, Gwynedd LL57 3AR neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1189716/1.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu diliysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984; neu
- b. na chydymffurfifiwyd ag un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 26 Tachwedd 2015, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar

**THE A5 TRUNK ROAD (BETHESDA, GWYNEDD) (PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING) ORDER 2013 (VARIATION) ORDER 2015**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 01 December 2015, and will vary 'The A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2013' that prohibits and restricts, subject to prescribed exceptions, waiting on the sides of specified lengths of the A5 London to Holyhead Trunk Road known as Bangor Road, High Street, Ogwen Terrace, Douglas Terrace and Pont y Pant-isaf (hereinafter referred to as "the trunk road") at Bethesda in the County of Gwynedd.

The effect of the Variation Order will be to prohibit waiting, subject to prescribed exceptions including vehicles used for the purposes of the Emergency Services, on the 6 metre length of the southern side of the trunk road known as High Street (outside Bethesda Police Station) that extends from a point 20 metres north west of its junction with Glanafon Street to a point 26 metres north west of the said junction. The existing Order currently imposes a waiting restriction of 90 minutes, and no return within 2 hours, between 09.00 hours and 18.00 hours Monday to Saturday on the afore mentioned length of trunk road.

During a period of 6 weeks from 30 November 2015, a copy of the Variation Order and revised plan, together with a copy of the Order to be varied and associated plan, may be inspected, free of charge, during normal office hours at Bethesda Post Office, Bethesda, Gwynedd LL57 3AR or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1189716/1.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- b. that any of the relevant requirements has not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 26 November 2015, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the

wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
(detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/  
Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig  
Parhaol/ 2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales)  
(select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local  
Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/  
2015).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government